CPS

Hawdd ei Ddeallen

# Beth sydd angen i chi ei wybod os ydych wedi dioddef treisio neu ymosodiad rhywiol difrifol




# Hawdd ei Ddeallen




Fersiwn Hawdd ei Ddarllen o rywfaint o wybodaeth ydy hwn. Efallai na fydd yn cynnwys yr holl wybodaeth, ond bydd yn dweud wrthoch chi am y rhannau pwysig.




Mae'r llyfryn Hawdd ei Ddarllen hwn yn defnyddio geiriau haws a lluniau. Gall fod angen help ar rai pobl i'w ddarllen beth bynnag.




Mae rhai geiriau mewn print trwm - mae hynny'n golygu bod yr ysgrifen yn fwy trwchus ac yn fwy tywyll. Mae'r rhain yn eiriau pwysig yn y llyfryn.




Weithiau os bydd gair mewn print trwm yn anodd ei ddeall, byddwn ni'n esbonio beth mae'n feddwl. Mae rhestr o'r geiriau hyn a beth maen nhw'n feddwl ar ddiwedd y llyfryn.




Mae geiriau glas sydd wedi'u tanlinellu yn dangos dolenni i wefannau a chyfeiriadau e-bost. Gallwch chi glicio ar y dolenni hyn ar gyfrifiadur.

# Beth sydd yn y llyfryn hwn


Beth sydd yn y llyfryn hwn ........................................ 3

Gwybodaeth am y llyfryn hwn........................................ 5

Gwybodaeth am Wasanaeth Erlyn y Goron ........................ 8

Cymorth i ddioddefwyr troseddu ..................................10

Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol .......................................... 12

Gwasanaethau eraill ........................................................................ 13

Cymorth pan fyddwch yn mynd i'r llys ........................................... 15

Os ydych yn riportio trosedd........................................17

Datganiad o Effaith ar Ddioddefwr ...............................22

Ynglŷn â throseddau rhywiol........................................24

Ynglŷn â chydsyniad ....................................................................... 24

Y cyhuddiadau ................................................................................ 26

Sut y gwneir penderfyniad...........................................28

Os oes digon o dystiolaeth............................................................... 29

Beth rydym yn meddwl amdano....................................................... 32

Ar ôl i ni wneud penderfyniad ......................................................... 34

Mynd i'r llys ..............................................................37

Y gwrandawiad cyntaf...................................................................... 39

Gwrandawiadau pledio.................................................................... 41

Os bydd y diffynnydd yn pledio'n euog ............................................ 42

Os bydd y diffynnydd yn pledio'n euog i rai o'r cyhuddiadau ........................................ 44

Os bydd y diffynnydd yn pledio'n ddieuog......................................... 45

Cyn y treial...............................................................46

Cynnig cwrdd â'r CPS....................................................................... 49

Cyrraedd y llys ............................................................................... 50

Y treial ....................................................................53

Cymorth i chi fel tyst yn y llys ........................................................ 54

Y diwrnod cyntaf ........................................................................ 58

Beth sy'n digwydd yn y treial .......................................................... 61

Dechrau'r treial ......................................................................... 63

Rhoi tystiolaeth ......................................................................... 64

Ar ôl i chi roi tystiolaeth................................................................ 67


Y dyfarniad .............................................................................. 68

Ar ôl y treial .............................................................72

Diffynyddion ac apeliadau.............................................................. 73

Dysgu rhagor ..............................................................75

Geiriau pwysig a beth maen nhw'n feddwl.........................76






Gallwch glicio ar y teitlau hyn i fynd yn syth i'r rhan honno o'r llyfryn.

# Gwybodaeth am y llyfryn hwn




**Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS)** ydy'r sefydliad sy'n mynd ag achosion troseddol i'r llys.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod **dioddefwyr** troseddau yn cael **cyfiawnder.**

**Dioddefwr** ydy rhywun sydd yn cael niwed neu anaf oherwydd trosedd.



**Cyfiawnder** ydy tegwch. Mae'n golygu gwneud penderfyniad sy'n deg i bawb.



Mae'r CPS yn sefydliad annibynnol.


Mae hyn yn golygu ei fod ddim yn rhan o'r llywodraeth na'r heddlu.




Bydd y llyfyrn hwn yn dweud mwy wrthoch chi am y CPS.



Bydd yn dweud wrthoch chi hefyd beth fydd yn digwydd os byddwch chi'n dweud wrth yr heddlu eich bod chi wedi bod yn ddioddefwr trosedd.




Gall unrhyw un ddioddef trosedd rhywiol, gan gynnwys menywod, merched, dynion a bechgyn.



Rydym yn gwybod y gall darllen am droseddau rhyw fod yn ofidus.



Bydd y llyfryn yn dweud wrthych ble y gallwch gael cymorth os ydych wedi dioddef **treisio** neu **ymosodiad rhywiol** difrifol.



**Treisio** yw pan fydd rhywun yn cael rhyw gyda chi ac nad ydych wedi cytuno.



**Ymosodiad rhywiol** yw pan fydd rhywun yn cyffwrdd â chi mewn ffordd rywiol nad ydych wedi cytuno iddi.




Byddwn ni’n esbonio mwy am ystyr y rhain yn ddiweddarach yn y llyfryn.



Rydyn ni’n gwybod bod y llyfryn yma’n hir. Gallwch chi gymryd cymaint o amser ag sydd eisiau i’w ddarllen.




Gallech chi ei ddarllen mewn darnau gyda thoriadau i gael egwyl os oes angen.

# Gwybodaeth am Wasanaeth Erlyn y Goron

Gwaith y CPS yw:



- Penderfynu pa achosion ddylai gael eu **herlyn**.

  Mae **erlyn** yn golygu mynd â nhw i'r llys.




- Penderfynu pa gyfraith mae rhywun wedi ei thorri ac a ddylen nhw gael eu **cyhuddo** o'r drosedd honno.




- Rhoi cyngor i'r heddlu pan fyddan nhw'n dechrau edrych ar beth sydd wedi digwydd.





Cael eu **cyhuddo** ydy pan fydd yr heddlu yn dweud yn swyddogol eu bod nhw'n meddwl bod rhywun wedi **troseddu**.

**Troseddu** ydy gwneud rhywbeth sydd yn torri'r gyfraith.

Ar gyfer troseddau trais rhywiol, mae hyn yn golygu ein bod yn:



- Penderfynu pryd y dylid mynd ag achos i'r llys.




- Egluro yn y llys pam rydym yn meddwl bod rhywun wedi cyflawni trosedd.

# Cymorth i ddioddefwyr troseddu




Mae gennych chi **hawliau** os ydych chi'n ddioddefwr trosedd.

**Hawliau** ydy pethau y dylai pob unigolyn eu cael yn ôl y gyfraith. Fel yr hawl i allu deall a chael eich deall.




Gallwch chi gael gwybod mwy am eich hawliau fel dioddefwr ar wefan y llywodraeth, yma:
[gov.uk/victims-code](https://gov.uk/victims-code)




Mae yna fersiwn Hawdd ei Ddarllen o'r wybodaeth.



Mae yna wasanaethau i gefnogi dioddefwyr.




Gallwch chi gysylltu â nhw eich hunan, neu ofyn i'r heddlu gysylltu â nhw ar eich rhan.



Gallwch chi gael gwybod mwy ar wefan y llywodraeth, yma: [cwm.victimandwitnessinformation.org.uk](https://cwm.victimandwitnessinformation.org.uk)

Os oes angen help arnoch chi mewn argyfwng, dylech chi ffonio 999 i siarad â:




- Yr heddlu.





- Y gwasanaeth ambiwlans.





- Y gwasanaeth tân.

# Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol




Mae sefydliadau i gefnogi dioddefwyr treisio neu ymosodiad rhywiol difrifol, p'un a ydynt yn riportio i'r heddlu ai peidio.

Fe'u gelwir yn **Gynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVAs)**.



Os dywedwch wrth yr heddlu **am** y drosedd, gall eich cynghorydd eich cefnogi, a mynd gyda chi i'r llys.

Mae llawer o grwpiau sy'n darparu gwasanaethau ISVA. Dyma rai o’r grwpiau cenedlaethol:

- The Survivors Trust: thesurvivorstrust.org/independent-sexual-violence-advisers
- Rape Crisis: https://rapecrisis.org.uk/

Grŵp cenedlaethol arall yw Partneriaeth Goroeswyr Gwryw: [malesurvivor.co.uk](https://malesurvivor.co.uk)



Gallwch gysylltu ag unrhyw un o'r sefydliadau hyn i ddysgu rhagor am wasanaethau ISVA a gofyn am ISVA.



Gallwch hefyd ofyn i'r heddlu eich helpu i gysylltu â gwasanaeth ISVA.

# Gwasanaethau eraill



Hefyd mae gwasanaethau eraill y gallwch eu defnyddio os ydych wedi dioddef treisio neu ymosodiad rhywiol difrifol, fel gwasanaethau **cwnsela**.



**Cwnsela** yw pan ydych yn siarad â rhywun am eich teimladau. Gallant eich helpu i ddelio â'ch problemau.

Gallwch hefyd ddod o hyd i wybodaeth a chyngor gan y sefydliadau canlynol:

- 1 in 6:
  1in6.uk

- Survivors UK:
  survivorsuk.org

- Safeline:
  safeline.org.uk


- Rape Crisis:
  rapecrisis.org.uk




Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am wasanaethau a all helpu yma:
www.gov.uk/guidance/support-for-victims-of-sexual-violence-and-abuse





Gallwch hefyd gael help a rhywun i siarad â nhw gan y GIG. Gallwch ddysgu rhagor yma:
nhs.uk/service-search/find-a-psychological-therapies-service




Os ydych am siarad â rhywun, dylech ofyn am help cyn gynted ag y byddwch yn teimlo'n barod. Nid oes angen oedi cyn cael cymorth.

# Cymorth pan fyddwch yn mynd i'r llys




Mae yna Wasanaeth Tystion i'ch helpu chi i ddeall beth fydd yn digwydd yn y llys.



Gallan nhw ddod i'r llys gyda chi hefyd os byddwch chi eisiau iddyn nhw wneud hynny.




Gallwch chi gael gwybod mwy ar eu gwefan nhw yma: citizensadvice.org.uk/witness




Os ydych yn Llundain, gallwch gael help gan Gymorth i Ddioddefwyr.




Gallwch gael rhagor o wybodaeth ar eu gwefan yma: [victimsupport.org.uk](victimsupport.org.uk)



Os ydych wedi cael eich anafu neu wedi colli arian oherwydd trosedd, efallai y gallwch gael **iawndal**.

Swm o arian yw **iawndal** fel arfer.





Gallwch ddysgu rhagor yma: [gov.uk/guidance/criminal-injuries-compensation-a-guide](gov.uk/guidance/criminal-injuries-compensation-a-guide)

# Os ydych yn riportio trosedd



Os bydd trosedd yn digwydd, dylech chi ddweud wrth yr heddlu.





Gallwch riportio trosedd rywiol i'r heddlu unrhyw bryd ar ôl iddo ddigwydd.




Gallwch riportio troseddau rhyw a ddigwyddodd amser maith yn ôl.




Ar ôl i drosedd gael ei riportio, bydd yr heddlu'n penderfynu a fyddan nhw'n ymchwilio i'r drosedd.




Bydd yr heddlu'n chwilio am **dystiolaeth.**

Mae **tystiolaeth** yn gallu bod yn ffeithiau (gan gynnwys yr hyn rydych yn ei ddweud neu bobl eraill yn ei ddweud am yr hyn a ddigwyddodd), yn bethau neu'n ddogfennau y bydd yr heddlu'n eu defnyddio i ddangos beth ddigwyddodd.



Gallwn ni helpu'r heddlu i benderfynu pa dystiolaeth i chwilio amdani.

Bydd yr heddlu yn:




- Gofyn i chi beth ddigwyddodd ac efallai y byddwch chi'n ysgrifennu beth rydych chi'n ei ddweud. Gelwir hwn eich **datganiad tyst**.

  Gallan nhw hefyd gymryd recordiad fideo o'r hyn a ddywedwch y gellid ei chwarae yn y llys.





- Siarad â phobl eraill am beth a ddigwyddodd. Byddan nhw'n gofyn iddynt am beth welson nhw ac unrhyw beth arall maen nhw'n ei wybod.




- Siarad ag unrhyw un y maen nhw'n meddwl allai fod wedi cyflawni'r drosedd. Fe'u gelwir **y rhai dan amheuaeth**.


Bydd yr heddlu’n chwilio am dystiolaeth arall, fel:




- Tystiolaeth o unrhyw gamerâu yn y stryd.



- Olion bysedd.



- Tystiolaeth o gyfrifiaduron neu negeseuon testun.




- Tystiolaeth feddygol gan feddyg neu nyrs.




Efallai y bydd yr heddlu'n gofyn am gael edrych ar eich ffôn neu'ch cyfrifiadur os ydyn nhw'n meddwl y gallai fod tystiolaeth bwysig yno.

Eich dewis chi yw cytuno ai peidio.



Byddan nhw ond yn gofyn am gael edrych ar eich ffôn neu gyfrifiadur os na allant gael y dystiolaeth o rywle arall.




Os byddwch yn cytuno, byddan nhw'n gofyn i chi lofnodi ffurflen i adael iddynt edrych ar eich dyfeisiau.

Bydd y ffurflen yn dweud wrthych:



- Pam mae angen iddynt edrych ar eich dyfais.




- Beth maen nhw'n chwilio amdano ar eich dyfais.



Bydd y ffurflen hefyd yn dweud wrthych pam fod hyn yn bwysig.



Bydd yr heddlu'n rhoi eich ffôn neu liniadur yn ôl cyn gynted ag y gallant.



Os bydd angen iddynt gadw'ch ffôn am amser hir, byddan nhw'n rhoi ffôn gwahanol i chi ei ddefnyddio.



Efallai y byddan nhw'n gofyn i bobl eraill am dystiolaeth, fel meddyg.

Os byddan nhw'n gofyn i bobl eraill am dystiolaeth, dim ond am yr union wybodaeth sydd ei hangen arnynt y gallant ofyn.

# Datganiad o Effaith ar Ddioddefwr




Os dymunwch, mae gennych yr hawl i roi Datganiad o Effaith ar Ddioddefwr, yn ogystal â'ch datganiad tyst.




Yn y Datganiad o Effaith ar Ddioddefwr, gallwch esbonio sut mae'r drosedd wedi effeithio arnoch chi.





Gallwch ysgrifennu Datganiad o Effaith ar Ddioddefwr ar unrhyw adeg hyd nes y bydd y **diffynnydd** yn cael ei ddedfrydu.

Ar ôl i'r heddlu gyhuddo rhywun sydd dan amheuaeth, fe'u gelwir yn **ddiffynnydd**.




Gallwch wneud mwy nag un Datganiad o Effaith ar Ddioddefwr.



Mae eich Datganiad o Effaith ar Ddioddefwr yn dystiolaeth, felly byddwn ni’n ei ddangos i’r llys a’r **tîm amddiffyn**.

Y **tîm amddiffyn** yw'r bobl sy'n helpu'r sawl sydd dan amheuaeth, fel eu cyfreithiwr.

# Ynglŷn â throseddau rhywiol



Bydd yr adran hon yn dweud mwy wrthych am beth rydym meddwl amdano pan ydym yn gwneud penderfyniadau am droseddau rhyw.

## Ynglŷn â chydsyniad




Os bydd rhywun yn gwneud rhywbeth rhywiol i chi, mae'n drosedd os ydynt yn ei wneud heb **gydsyniad**.

Mae **cydsyniad** yn golygu eich bod yn cytuno i rywun wneud rhywbeth.




Nid oes angen i chi fod wedi dweud nad oeddech yn cytunoo.




Mae'r gyfraith yn dweud bod cydsyniad yn golygu mai eich dewis chi oedd cytuno.

Mae'r gyfraith hefyd yn dweud bod cydsyniad yn golygu:




- Roeddech chi'n deall beth roeddech yn cytuno iddo.




- Roeddech chi'n gallu cytuno.



Efallai na fyddwch yn gallu cytuno os oeddech wedi yfed llawer o alcohol neu wedi cymryd cyffuriau.




Weithiau, gall diffynnydd gredu bod rhywun wedi cydsynio i weithgaredd rhywiol. Rydym yn galw hyn yn **gred resymol**.




Mae angen i ni ddangos nad oedd y diffynnydd yn credu eich bod wedi cydsynio i weithgaredd rhywiol.



Mae llawer o ffyrdd y gallwn ni brofi na wnaethoch gydsynio.


# Y cyhuddiadau



Bydd y rhan hon o'r llyfryn yn dweud mwy wrthych am y gwahanol droseddau y gellir cyhuddo rhywun ohonyn nhw.




Efallai y bydd ei ddarllen yn peri gofid.




Cofiwch y gallwch gael cymorth unrhyw bryd.

Mae 3 phrif drosedd o drais rhywiol:



1. Treisio

   Yn ôl y gyfraith, mae hyn yn golygu bod rhywun yn rhoi eu pidyn yn eich gwain, pen ôl neu geg, heb gydsyniad.




2. Ymosodiad rhywiol trwy dreiddiad

   Mae hyn yn golygu bod rhywun yn rhoi rhan arall o'u corff, neu wrthrych, yn eich gwain neu'ch pen ôl heb ganiatâd.



3. Ymosodiad rhywiol

   Mae hyn yn golygu bod rhywun wedi cyffwrdd â chi mewn ffordd rywiol heb ganiatâd. Mae hyn yn cynnwys cusanu.




Cofiwch, mae cydsyniadd yn golygu eich bod wedi cytuno i rywbeth, neu mae'n rhaid i rywun arall gredu y gallech fod wedi cytuno yn y sefyllfa honno.

# Sut y gwneir penderfyniad

Os nad yw'r heddlu'n credu bod ganddynt ddigon o dystiolaeth i fynd â'r rhai dan amheuaeth i'r llys a'i gyhuddo, byddant yn.




- Peidio â gofyn i ni edrych ar yr achos.



- Peidio ag ymchwilio i'r achos ymhellach.

Os bydd hynny'n digwydd, bydd yr heddlu'n esbonio:



- Pam na fydd unrhyw beth arall yn digwydd.



- Pa gymorth y gallwch ei gael.



Bydd yr heddlu hefyd yn esbonio a oes unrhyw beth arall y gallwch ei wneud.




Os na fydd yr heddlu'n cyhuddo'r achos, gallwch ofyn iddynt edrych arno eto.

Gelwir hyn yn **Hawl Dioddefwyr i Adolygiad (VRR)**.



Bydd yr heddlu'n dweud wrthych sut y gallwch wneud hyn.

# Os oes digon o dystiolaeth



Os yw'r heddlu'n credu bod ganddyn nhw ddigon o dystiolaeth, byddan nhw'n trosglwyddo'r achos i ni i ddelio ag ef.



Byddwn ni’n penderfynu a ellir cyhuddo'r sawl sydd dan amheuaeth a'i **erlyn**.

Mae **erlyn** yn golygu mynd i'r llys.



Bydd yr heddlu’n dweud wrthych beth sy'n digwydd ar bob cam o'r achos, a sut i gysylltu â nhw os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon.



Byddwn ni’n edrych ar yr holl dystiolaeth yn yr achos .



Rydym yn gwybod y gall trais rhywiol gael effaith fawr ar ddioddefwyr.



Rydym am ei gwneud mor hawdd â phosibl i ddioddefwyr.





Gallwch ddarllen rhagor am sut rydym yn gwneud hynny yma: [www.cps.gov.uk/publication/national-operating-model-adult-rape-prosecution](www.cps.gov.uk/publication/national-operating-model-adult-rape-prosecution)



Mae gennym dîm arbennig i edrych ar droseddau rhyw.



Gallwch ddarllen rhagor am y tîm hwn a'u gwaith yma: [www.cps.gov.uk/about-cps/how-we-prosecute-rape](www.cps.gov.uk/about-cps/how-we-prosecute-rape)



Mae'r gyfraith yn dweud y gallwch ddewis aros yn **ddienw** yn y papurau newydd ac ar gyfryngau cymdeithasol, fel Facebook, X a TikTok.



Mae **dienw** yn golygu ei bod yn erbyn y gyfraith i unrhyw un gyhoeddi rhywbeth sy'n dangos eich bod wedi dioddef trosedd rhywiol.

# Beth rydym yn meddwl amdano




Pan ydym yn gwneud ein penderfyniad, rydym yn meddwl am 2 gwestiwn gwahanol.




Yn gyntaf rydym yn penderfynu a oes digon o dystiolaeth yn yr achos. Mae digon o dystiolaeth os yw'n fwy tebygol na pheidio y bydd y sawl dan amheuaeth yn cael ei ganfod yn euog yn y llys.



Yna rydym yn meddwl a yw **er budd y cyhoedd** i'r achos fynd i'r llys.

Mae **budd y cyhoedd** yn golygu'r hyn sy'n dda i bawb yn y gymuned leol a'r wlad gyfan.



Er mwyn penderfynu beth sydd er budd y cyhoedd, byddwn yn meddwl pa mor ddifrifol oedd y drosedd a'r niwed a achoswyd i'r dioddefwr.



Byddwn ni hefyd yn meddwl sut mae'r drosedd wedi effeithio ar bobl leol.




Gallwch gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn gwneud ein penderfyniad ar ein gwefan, yma: [www.cps.gov.uk/publication/code-crown-prosecutors](http://www.cps.gov.uk/publication/code-crown-prosecutors)




Mae fersiwn Hawdd ei Ddeall o'r wybodaeth.



Byddwn ni’n gwneud ein penderfyniad cyn gynted ag y gallwn ni.

# Ar ôl i ni wneud penderfyniad



Os byddwn ni'n penderfynu y dylai'r achos fynd i'r llys, byddwn ni'n dweud wrth yr heddlu.


Wedyn bydd yr heddlu'n cyhuddo'r un sydd dan amheuaeth.




Cofiwch, ar ôl i'r heddlu gyhuddo rhywun sydd dan amheuaeth, maen nhw'n cael eu galw'n **ddiffynnydd**.



Weithiau bydd rhaid i ddiffynnydd gael eu **cadw yn y ddalfa** nes byddan nhw'n mynd i'r llys.
Mae cael eu **cadw yn y ddalfa** yn golygu cael eu cadw dan glo gan sefydliad fel yr heddlu neu mewn carchar.




Weithiau bydd rhywun sydd dan amheuaeth yn cael eu rhyddhau ar **fechnïaeth**.
Mae **mechnïaeth** yn golygu bod dim rhaid i'r diffynnydd gael eu cadw dan glo, ond bydd rhaid iddyn nhw fynd i'r llys pan fydd rhywun yn dweud wrthyn nhw. Os nad ydyn nhw'n mynd i'r llys ar yr amser a'r dyddiad byddan nhw'n troseddu.

Os byddan nhw’n cael eu rhyddhau ar fechnïaeth, efallai bydd rhaid iddyn nhw gadw at rai rheolau, fel:




- Rhoi eu pasbort i'r heddlu.



- Peidio cysylltu â chi.



Mae’n bosib hefyd na fyddan nhw’n cael mynd yn agos at ble rydych chi’n byw neu’n gweithio.



Os byddan nhw’n torri unrhyw rai o’r rheolau, dylech chi ddweud wrth yr heddlu ac mae’n bosib y byddan nhw’n cael eu hanfon i’r carchar.

Bydd yr heddlu'n dweud wrthych chi:




● Bod y diffynnydd wedi cael eu cyhuddo.




● O beth maen nhw wedi cael eu cyhuddo.



● Os ydyn nhw wedi cael eu cadw yn y ddalfa.



Bydd yr heddlu'n dweud wrthoch chi hefyd am unrhyw reolau mae rhaid iddyn nhw gadw atyn nhw os ydyn nhw'n cael eu rhyddhau ar fechnïaeth.




Os nad ydych chi'n hapus gydag unrhyw ran o'n gwasanaeth i chi, gallwch chi wneud cwyn ar ein gwefan: [contact.cps.gov.uk/](contact.cps.gov.uk/)

# Mynd i'r llys



Ar ôl i ddiffynnydd gael eu cyhuddo, bydd rhaid iddyn nhw fynd i'r llys.

Mae yna wahanol fathau o lysoedd, fel:



1. Llys **Ynadon**, lle mae grŵp o ynadon yn gwneud penderfyniadau fel arfer.

Mae **ynad** fel **barnwr**. **Barnwr** ydy'r person sydd yn gyfrifol am lys.




Yn y llys fel arfer, mae yna naill ai:

- 2 neu 3 o ynadon sy'n gweithio gyda'i gilydd.
- 1 barnwr rhanbarth.





- Maen nhw'n gwrando ar y dystiolaeth i gyd ac yn gwneud penderfyniadau, sy'n cynnwys:
- A ydy'r diffynnydd yn euog neu'n ddieuog.
- Beth ddylai'r ddedfryd fod os ydy'r diffynnydd yn cael ei ganfod yn euog.



2. Llys y Goron.


Yn Llys y Goron, mae **rheithgor** yn penderfynu a ydy'r person yn euog neu'n ddieuog.

**Rheithgor** ydy 12 o bobl sydd wedi cael eu dewis i wneud penderfyniadau mewn achos.



Mae yna farnwr hefyd yn Llys y Goron.

Mae'r barnwr yn gwneud yn siŵr bod yr achos yn cael ei drin yn deg.





Y barnwr fydd yn penderfynu hefyd:

- Pryd bydd pob rhan o'r achos yn digwydd.



- Sut bydd y ffordd orau i roi cymorth i chi i roi tystiolaeth.



- Beth ddylai'r ddedfryd fod os ydy'r diffynnydd yn cael ei ganfod yn euog.

# Y gwrandawiad cyntaf



Bydd y gwrandawiad cyntaf mewn llys ynadon.



Efallai bydd rhaid i'r ynadon benderfynu ym mha lys dylai'r achos llawn gael ei glywed.




Mae llys ynadon yn gallu rhoi dedfrydau o hyd at 6 mis yn y carchar.





Felly mae troseddau llai difrifol yn cael eu **rhoi ar brawf** mewn llys ynadon.

Ystyr **rhoi ar brawf** ydy bod llys yn gwrando ar y dystiolaeth i gyd mewn achos ac yn gwneud penderfyniad.





Mae troseddau difrifol yn cael eu rhoi ar brawf mewn Llys y Goron.



Os nad ydy hi'n glir a ydy'r drosedd yn ddifrifol ai peidio, bydd y llys ynadon yn penderfyu ym mha lys y dylai'r achos gael ei glywed.




Mae hyn yn cael ei alw yn achos "neillffordd".



Mae'r diffynnydd yn gallu gofyn i gael **treial** gerbron rheithgor mewn Llys y Goron.

**Treial** ydy pan fydd barnwr neu reithgor yn gwrando ar y dystiolaeth i gyd mewn achos ac yn gwneud penderfyniad.



Bydd y llys ynadon hefyd yn penderfynu a ellir rhyddhau'r diffynnydd ar fechnïaeth neu a fydd yn aros yn y ddalfa.

# Gwrandawiadau pledio

Mae'r gwrandawiad nesaf yn cael ei alw'n wrandawiad pledio. Y gwrandawiad pledio ydy ble:



- Mae rhywun o'r llys yn darllen y cyhuddiadau.




- Mae'r diffynnydd yn dweud ydyn nhw'n euog neu'n ddieuog o bob cyhuddiad.



Mae'r achos pledio yn gallu bod yn y llys ynadon neu yn Llys y Goron.

Gallai'r diffynnydd:




- **Bledio'n euog** i bob un o'r cyhuddiadau. Mae **pledio'n euog** yn golygu eu bod nhw'n dweud eu bod nhw wedi gwneud y troseddau.




- Pledio'n euog i rai o'r troseddau.





- Pledio'n ddieuog i bob un o'r troseddau.

## Os bydd y diffynnydd yn pledio'n euog




Os bydd y diffynnydd yn pledio'n euog, bydd y llys yn cael eich Datganiad o Effaith ar Ddioddefwr.




Gallwch chi ddarllen eich Datganiad o Effaith ar Ddioddefwr i'r llys os ydych chi eisiau, ac os bydd y barnwr yn dweud eich bod chi'n cael.



Bydd eich Datganiad o Effaith ar Ddioddefwr yn helpu'r barnwr neu ynad i ddeall sut mae'r drosedd wedi effeithio arnoch chi.

Bydd y barnwr neu ynad yn:



- Dedfrydu'r diffynnydd, neu




- Gofyn am ragor o amser i benderfynu ar y ddedfryd.



Gallai'r barnwr neu ynad yn y llys ynadon benderfynu anfon yr achos i Lys y Goron i gael dedfryd fwy.

# Os bydd y diffynnydd yn pledio'n euog i rai o'r cyhuddiadau

Os bydd y diffynnydd yn pledio'n euog i rai o'r cyhuddiadau, byddwn ni'n penderfynu:




- A fyddwn ni'n derbyn y pleon euog.





- Beth i'w wneud am y cyhuddiadau eraill.

# Os bydd y diffynnydd yn pledio'n ddieuog

Os bydd y diffynnydd yn pledio'n ddieuog i unrhyw rai o'r cyhuddiadau, bydd y barnwr neu ynad yn penderfynu:




- Ble bydd y treial.




- Pryd bydd y treial.

# Cyn y treial



Mae rhaid i ni ddweud wrth dîm yr amddiffyniad am y dystioleth sydd ganddon ni.



Byddwn ni'n gwneud yn siŵr na fyddwn ni'n rhannu dim o'ch gwybodaeth bersonol chi gyda nhw nad oes angen iddyn nhw wybod.




Efallai bydd rhaid i ni ofyn i'r llys gawn ni ddefnyddio peth o'r dystiolaeth, fel a gawn ni ddangos tystiolaeth i'r llys bod y diffynnydd wedi bod yn euog o wneud troseddau tebyg yn y gorffennol.



Mae'n rhaid i dîm cyfreithiol y diffynnydd hefyd ofyn i'r llysoedd os ydyn nhw am ddefnyddio tystiolaeth am eich gweithgarwch rhywiol yn y gorffennol.



Bydd y barnwr ond yn gadael iddyn nhw ddefnyddio’r dystiolaeth honno os oes rhaid iddyn nhw, ac nid yw hyn yn digwydd llawer.




Os bydd y barnwr yn caniatáu i dîm cyfreithiol y diffynnydd ofyn am eich gweithgarwch rhywiol yn y gorffennol, byddwn ni’n siarad â chi amdano cyn i chi fynd i'r llys.




Bydd yr heddlu’n dweud wrthoch chi beth sy’n digwydd gyda’r achos cyn y treial.

Bydd yr heddlu’n dweud wrthoch chi hefyd:




- Pryd dylai’r treial ddechrau a gorffen.




- Os oes angen i chi roi tystiolaeth.

Bydd yr heddlu hefyd yn dweud wrthych chi:



- Faint o’r gloch mae angen i chi gyrraedd y llys.





- Os bydd dyddiad yr achos yn newid.


Mae Gwasanaethau Tystion yn gallu:




- Trefnu i chi gael ymweld â’r llys cyn y treial.



- Eich helpu chi i gadw draw oddi wrth y diffynnydd, neu eu teulu a’u ffrindiau yn y llys os ydych chi eisiau.



Os byddwch chi wedi gwneud fideo o'ch tystiolaeth i ni ei ddangos i'r llys, bydd yr heddlu'n gadael i chi ei wylio eto cyn y treial.



Os byddwch chi wedi rhoi unrhyw dystiolaeth yn ysgrifenedig, byddwn ni'n ei roi i chi pan fyddwch chi'n cyrraedd y llys a byddwch chi'n gallu edrych trwyddo eto cyn y treial.

## Cynnig cwrdd â'r CPS



Bydd tîm erlyn y CPS yn cynnig cwrdd â chi os dymunwch.



Mae'r cynnig o gael cyfarfod ar gyfer dioddefwyr treisio neu ymosodiad rhywiol difrifol.



Bydd y cyfarfod yn digwydd ar ôl i chi ddarganfod bod eich achos yn mynd i dreial.



Gallwch chi ddod â rhywun a all eich cefnogi os hoffech chi.




Yn y cyfarfod, gallwch chi siarad â rhywun o dîm yr erlyniad am:

- Beth sy'n digwydd nesaf.
- Unrhyw gwestiynau sydd gennych chi.
- Cymorth i roi eich tystiolaeth - rydym yn galw hyn yn Fesurau Arbennig .

# Cyrraedd y llys




Mae angen i chi gynllunio sut byddwch chi'n cyrraedd y llys.




Mae'r **Uned Gofal Tystion** yn gallu'ch helpu chi gyda hyn.

Mae'r **Uned Gofal Tystion** yn wasanaeth sy'n cefnogi ac yn helpu pobl sy'n gorfod mynd i'r llys.



Dylech chi ddweud wrth yr heddlu os:

- Bydd angen i chi ddefnyddio tacsi, trên neu awyren i gyrraedd y llys, neu



- Rydych chi'n byw mor bell i ffwrdd bod rhaid i chi aros dros nos yn agos at y llys i wneud yn siŵr eich bod chi'n gallu cyrraedd y llys ar amser.



Byddwn ni'n talu i chi gyrraedd y llys ac yn ôl gartref.

Gallwch chi hefyd ofyn i ni dalu am:



- Rhywun i ofalu am eich plant, os oes gennych chi rai.



- Arian y byddwch chi'n ei golli oherwydd eich bod chi'n methu gweithio tra byddwch chi yn y llys.



Byddwch chi'n cael gwybod sut i ofyn i ni dalu am unrhyw rai o'r pethau hynny.





Gallwch chi gael gwybod mwy ar ein gwefan, yma: https://www.cps.gov.uk/publication/witness-expenses-and-allowances



Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am deithio neu am beth rydyn ni'n talu, rhowch wybod i'ch cyswllt yn yr heddlu.

# Y treial




Bydd y treial yn digwydd cyn gynted â phosib ar ôl i'r diffynnydd gael eu cyhuddo.



Ond mae'n dal yn bosib bydd hyn yn amser hir.



Rydyn ni'n gwybod y gallai fod yn anodd aros.



Gallwch chi i gael cefnogaeth unrhyw bryd.

# Cymorth i chi fel tyst yn y llys



Bydd rhaid i chi roi tystiolaeth yn y treial.

Mae hyn yn golygu y bydd rhaid i chi:




- Dweud wrth y llys beth ddigwyddodd.



- Ateb cwestiynau am beth ddigwyddodd gan dimau'r amddiffyniad a'r erlyniad.



Efallai byddwch chi'n gallu cael cefnogaeth i roi tystiolaeth os ydych chi eisiau. Mae hyn yn cael ei alw'n **Fesurau Arbennig**.

Gallwch chi ofyn am Fesurau Arbennig os oes unrhyw un o’r rhain yn berthnasol i chi:



- Rydych chi dan 18 oed.




- Mae gennych chi anabledd fyddai’n effeithio ar eich tystiolaeth yn y llys.



- Mae ofn arnoch chi ynglŷn â rhoi tystiolaeth.



- Rydych chi’n ddioddefwr camdriniaeth ddomestig, treisio neu ymosodiad rhywiol.



- Rydych chi’n ddioddefwr caethwasiaeth fodern.



Gallwch chi gael Mesurau Arbennig hefyd os ydych chi'n ddioddefwr neu'n dyst i droseddau gyda dryll neu gyllyll.

Mae'n bosib byddwch chi'n gallu:



- Recordio eich tystiolaeth ar fideo.



- Ateb cwestiynau am eich tystiolaeth ar fideo.



- Rhoi tystiolaeth y tu ôl i sgrin fel eich bod chi ddim yn gallu gweld y diffynnydd.




- Rhoi tystiolaeth trwy gyswllt fideo o rywle y tu allan i ystafell y llys.

Mae’n bosib hefyd byddwch chi’n gallu:




- Rhoi tystiolaeth yn breifat. Mae hyn yn golygu mai dim ond y bobl y mae angen iddyn nhw fod yn y llys fyddai’n cael eu gadael i mewn.



- Cael cefnogaeth gan **gyfryngwr,** sef rhywun fydd yn eich helpu chi i ddeall y cwestiynau.

  Byddan nhw wedi cael hyfforddiant ar y ffordd orau i gefnogi pobl gydag anableddau neu anghenion.



Cael help i ateb y cwestiynau, fel defnyddio iaith arwyddion neu **dechnoleg**.

**Technoleg** ydy teclynau a chyfarpar sydd yn helpu pobl.



Os bydd yn helpu, gallwch chi ofyn i’r barnwr a’r cyfreithwyr dynnu eu wigiau a’u gynau.



Bydd yr heddlu'n dweud wrthon ni os oes angen Mesurau Arbennig arnoch chi.




Byddwn ni'n gofyn i'r llys gewch chi Fesurau Arbennig drwy wneud cais.





Bydd yr heddlu'n dweud wrthoch chi beth mae'r llys yn benderfynu.


## Y diwrnod cyntaf



Pan fyddwch chi'n cyrraedd y llys, bydd y swyddogion diogelwch yn dangos y ffordd i chi i ystafell aros y Gwasanaeth Tystion.



Os byddwch chi'n rhoi eich tystiolaeth o rywle y tu allan i ystafell y llys, dylech chi wneud beth mae'r Gwasanaeth Tystion neu'r heddlu wedi ddweud wrthoch chi.




Bydd y Gwasanaeth Tystion yn dweud wrthoch chi beth sy’n digwydd yn ystod y dydd.

Os byddwch chi’n poeni am weld y tystion o ochr yr amddiffyniad, dylech chi ddweud wrth:



- Eich cyswllt yn yr heddlu.



- Gwasanaethau Tystion.



Cyn i’r treial ddechrau, bydd rhywun o Wasanaeth Erlyn y Goron yn siarad â chi am beth fydd yn digwydd yn ystod y dydd.



Byddan nhw’n siarad â chi hefyd am beth allai achos cyfreithiwr yr amddiffyniad fod.



Os byddwch chi'n rhoi tystiolaeth yn y llys, bydd rhaid i chi aros yn yr ystafell aros nes i'ch tro chi ddod.



Os nad ydych chi'n rhoi tystiolaeth, neu ar ôl i chi orffen rhoi tystiolaeth, gallwch chi wylio'r treial.




Gallwch chi gael gwybod mwy am pwy fydd mewn llys ynadon yma: [www.gov.uk/guidance/hmcts-whos-who-magistrates-court](www.gov.uk/guidance/hmcts-whos-who-magistrates-court)




Gallwch chi gael gwybod mwy am pwy fydd mewn Llys y Goron yma: [https://www.gov.uk/guidance/hmcts-whos-who-crown-court](https://www.gov.uk/guidance/hmcts-whos-who-crown-court)

# Beth sy'n digwydd yn y treial



Fel arfer, bydd **bargyfreithwyr** a chyfreithwyr yn dweud wrth y llys am yr achos.


Mae **bargyfreithiwr** yn fath o gyfreithiwr sy'n siarad yn Llys y Goron.



Cyfreithwyr sy'n siarad mewn llys ynadon.




Yn y llyfryn hwn, byddwn ni'n defnyddio'r gair 'cyfreithiwr' i olygu cyfreithiwr a bargyfreithiwr.




Mae gan y cyfreithwyr ar bob tîm swyddi gwahanol.




Mae 1 cyfreithiwr yn cael eu galw’n gyfreithiwr yr erlyniad, neu’r erlynydd. Maen nhw’n rhan o dîm yr erlyniad.




Mae 1 cyfreithiwr yn cael eu galw’n gyfreithiwr yr amddiffyniad. Maen nhw’n rhan o dîm yr amddiffyniad.





Mae rhaid i gyfreithiwr yr erlyniad ddweud wrth y llys sut mae’r dystiolaeth yn dangos bod y diffynnydd yn euog.




Ond does dim angen i gyfreithiwr yr amddiffyniad ddangos bod y diffynnydd yn ddieuog.



Mae rhaid iddyn nhw ddangos bod y llys ddim yn gallu bod yn siŵr bod y diffynnydd yn euog.



I wneud hynny, maen nhw'n siarad am:

- Broblemau gyda'r dystiolaeth




- Rhannau o'r dystiolaeth sydd ar goll.

## Dechrau'r treial



Cyfreithiwr yr erlyniad fydd yn dechrau'r treial.

Bydd y cyfreithiwr yn dweud wrth y llys:




- Am y cyhuddiadau yn erbyn y diffynnydd.




- Ffeithiau'r achos.

# Rhoi tystiolaeth




Oherwydd mai chi ydy'r dioddefwr, chi fydd y prif dyst yn yr achos fel arfer.

Felly mae'n debygol mai chi fydd yn rhoi eich tystiolaeth gyntaf.



Os bydd y llys wedi dweud y gallwch chi ddefnyddio Mesurau Arbennig, byddan nhw'n barod i chi.



Os na fyddwch chi wedi ateb y cwestiynau gan gyfreithiwr yr amddiffyniad drwy fideo, bydd angen i chi eu hateb nhw yn y llys.

Pan fyddwch chi'n ateb cwestiynau, dylech chi:




- Wrando ar y cwestiwn yn ofalus.




- Gofyn i rywun ailadrodd y cwestiwn os bydd angen i chi.



- Gofyn i rywun ofyn y cwestiwn mewn ffordd wahanol os nad ydych chi'n deall.



- Dweud y gwir.




- Dweud eich bod chi ddim yn gwybod yr ateb neu ddim yn gallu cofio os oes angen i chi.



Gallwch chi ofyn am egwyl pan fydd angen un arnoch chi.



Gall y barnwr neu'r ynad stopio cyfreithwyr yr amddiffyniad neu'r erlyniad rhag gofyn cwestiwn i chi os ydyn nhw'n meddwl nad ydy'n iawn.



Efallai bydd cyfreithwyr yr amddiffyniad neu'r erlyniad yn **gwrthwynebu** bod rhai cwestiynau'n cael eu gofyn os nad ydyn nhw'n iawn.

Yn y llys, **gwrthwynebu** ydy pan fydd rhywun yn anghytuno bod cwestiwn yn cael ei ofyn.


# Ar ôl i chi roi tystiolaeth




Ar ôl i chi roi eich tystiolaeth, bydd tystion eraill yn rhoi eu tystiolaeth nhw.



Bydd beth ddwedodd y diffynnydd wrth yr heddlu am beth ddigwyddodd yn cael ei ddarllen yn y treial.



Gallai'r diffynnydd ddewis peidio rhoi tystiolaeth neu ateb cwestiynau o'r cyfreithwyr yr erlyniad.



Pan fydd y tystion i gyd wedi rhoi tystiolaeth, bydd y cyfreithwyr yn gwneud areithiau am y dystiolaeth.



Mewn llys ynadon, bydd yr ynadon yn mynd i ystafell ar wahân i wneud eu penderfyniad.



Yn Llys y Goron, bydd y barnwr yn siarad â'r rheithgor ac yna bydd y rheithgor yn mynd i siarad am yr achos ac yn gwneud eu penderfyniad.

# Y dyfarniad




Y dyfarniad ydy pan fydd yr ynad neu'r rheithgor yn penderfynu a ydy rhywun yn euog neu'n ddieuog.




Mae gennych chi hawl i wybod beth maen nhw'n ei benderfynu.



Gallwch chi fynd i'r llys i gael clywed y dyfarniad os ydych chi eisiau.



Dydyn ni byth yn gwybod faint o amser bydd rheithgor neu ynadon yn gymryd i wneud penderfyniad.




Os byddan nhw'n penderfynu bod y diffynnydd yn ddieuog, byddan nhw'n rhydd i fynd.



Os byddan nhw'n cael eu canfod yn ddieuog, dydy hynny ddim yn golygu bod y llys ddim wedi eich credu chi.



Mae'n golygu eu bod nhw ddim yn gallu bod yn siŵr bod y diffynnydd yn euog.

Os bydd y diffynnydd yn cael eu canfod yn euog, bydd yr ynadon neu'r barnwr yn gallu:




- Eu dedfrydu nhw ar unwaith, neu




- Symud y dedfrydu i rywbryd diweddarach, i roi amser iddyn nhw gael rhagor o wybodaeth.




Efallai byddan nhw eisiau cael gwybod mwy am y diffynnydd.



Gallwch chi fynd i'r **dedfrydu** hefyd. Dyma pryd bydd yr ynadon neu'r barnwr yn penderfynu sut bydd rhywun yn cael eu cosbi os ydyn nhw'n euog.




Os nad ydych chi eisiau mynd i'r dedfrydu, bydd eich cyswllt yn yr heddlu yn dweud wrthoch chi beth wnaethon nhw benderfynu.



Gallwch chi ddarllen eich Datganiad o Effaith ar Ddioddefwr yn y dedfrydu.

Os byddwch chi'n darllen eich Datganiad o Effaith ar Ddioddefwr yn y dedfrydu, byddwch chi'n:



- Cael yr un Mesurau Arbennig â phan aethoch chi i'r llys.



- Cael arian yn ôl os oes rhaid i chi deithio i'r llys ar gyfer y dedfrydu.

# Ar ôl y treial




Gyda rhai troseddau, os bydd rhywun yn meddwl bod y ddedfryd yn rhy fyr, gallan nhw wenud **apêl** yn ei herbyn.



**Apêl** ydy pan fyddwch chi ddim yn cytuno â phenderfyniad ac yn gofyn i'r achos gael ei ystyried eto.




Bydd yr apêl yma'n mynd i **Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol.**

Mae **Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol** yn rhan o'r llywodraeth. Eu gwaith nhw ydy edrych ar ddedfrydau y mae rhywun yn meddwl eu bod yn rhy fyr.



Os bydd Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol yn meddwl bod y ddedfryd yn rhy fyr, byddan nhw'n gofyn i'r Llys Apêl edrych ar yr achos.



Os bydd y Llys Apêl yn penderfynu edrych ar yr achos, byddan nhw'n gallu cadw'r ddedfryd yr un fath neu ei gwneud yn hirach.

# Diffynyddion ac apeliadau



Mae'r diffynnydd a'u cyfreithwyr hefyd yn gallu apelio os ydyn nhw'n meddwl bod y ddedfryd sydd wedi cael ei rhoi i'r diffynnydd yn rhy hir.



Os ydy'r diffynnydd a'u cyfreithwyr yn apelio yn erbyn dedfryd o lys ynadon, bydd Llys y Goron yn edrych ar yr apêl.




Os ydy'r diffynnydd a'u cyfreithwyr yn apelio yn erbyn dedfryd o Lys y Goron, bydd y Llys Apêl yn edrych ar yr apêl.



Os bydd y Llys Apêl yn penderfynu edrych ar yr achos, byddan nhw'n gallu cadw'r ddedfryd yr un fath neu ei gwneud yn fyrrach.




Gallwch chi gael gwybod mwy am ofyn i ddedfrydau gael eu hystyried eto yma: [www.gov.uk/ask-crown-court-sentence-review](www.gov.uk/ask-crown-court-sentence-review)




Gallwch chi barhau i gael cymorth ar ôl y treial.




Os nad ydych chi'n dal i gael cymorth, gallwch gysylltu â Gwasanaethau Dioddefwyr am gymorth yma: [victimsupport.org.uk/help](victimsupport.org.uk/help)

# Dysgu rhagor




Gallwch chi edrych ar ein gwefan yma:
www.cps.gov.uk

Gallwch gysylltu â ni drwy:



- Post:
  102 Petty France
  Llundain
  SW1H 9EA

# Geiriau pwysig a beth maen nhw'n feddwl




Mae rhoi rhywun **dan amheuaeth** yn golygu dweud wrth rywun eich bod chi'n meddwl bod rhywun wedi gwneud rhywbeth o'i le.




**Apêl** ydy pan fyddwch chi ddim yn cytuno â phenderfyniad ac yn gofyn i'r achos gael ei ystyried eto.



Mae **Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol** yn rhan o'r llywodraeth. Eu gwaith nhw ydy edrych ar ddedfrydau y mae rhywun yn meddwl eu bod yn rhy fyr.




Mae **mechnïaeth** yn golygu bod dim rhaid iddyn nhw gael eu cadw dan glo, ond bydd rhaid iddyn nhw fynd i'r llys pan fydd rhywun yn dweud wrthyn nhw. Os nad ydyn nhw'n mynd i'r llys ar yr amser a'r dyddiad maen nhw wedi eu cael, byddan nhw'n troseddu.



Mae **bargyfreithiwr** yn fath o gyfreithiwr sy’n siarad ar ran pobl yn y llys.



Gallai pobl gael **iawndal** os ydyn nhw wedi cael eu hanafu neu wedi colli arian oherwydd trosedd. Swm o arian ydy hyn fel arfer.




Mae cydsyniad yn golygu eich bod yn cytuno i rywun wneud rhywbeth.




Cael eu **cyhuddo** ydy pan fydd yr heddlu yn dweud yn swyddogol eu bod nhw’n meddwl bod rhywun wedi troseddu.



**Tîm yr amddiffyniad** yw'r bobl sy'n helpu'r sawl sydd dan amheuaeth, fel eu cyfreithiwr.



Ar ôl i'r heddlu gyhuddo rhywun sydd dan amheuaeth, maen nhw'n cael eu galw'n **ddiffynnydd**.



**Cam-drin domestig** ydy cael eich niweidio gan aelod o'r teulu neu rywun sy'n byw gyda chi neu wedi bod yn byw gyda chi.



Mae **tystiolaeth** yn gallu bod yn ffeithiau, yn bethau neu'n ddogfennau y bydd yr heddlu'n eu defnyddio i ddangos beth ddigwyddodd.



Os ydy rhywun yn **euog**, mae'n golygu mai nhw wnaeth y drosedd.




Mae **ymchwilio** yn golygu edrych i mewn i'r drosedd i gael gwybod beth ddigwyddodd a phwy wnaeth.




**Barnwr** ydy'r person sydd yn gyfrifol am lys.



**Rheithgor** ydy 12 o bobl sydd wedi cael eu dewis i wneud penderfyniadau mewn achos.



**Cyfiawnder** yw tegwch. Mae'n golygu gwneud penderfyniad sy'n deg i bawb.



Mae **ynad** fel barnwr. Yn y llys fel arfer, mae yna naill ai:

- 2 neu 3 o ynadon sy’n gweithio gyda’i gilydd.
- 1 barnwr rhanbarth.



Maen nhw’n gwrando ar y dystiolaeth i gyd ac yn gwneud penderfyniadau, sy’n cynnwys:

- A ydy'r diffynnydd yn euog neu'n ddieuog.
- Beth ddylai'r ddedfryd fod os ydy’r diffynnydd yn cael ei ganfod yn euog.



Yn y llys, **gwrthwynebu** yw pan fydd rhywun yn anghytuno bod cwestiwn yn cael ei ofyn.




Mae **pledio'n euog** yn golygu bod y diffynnydd yn dweud eu bod nhw wedi gwneud y troseddau.



Y **gwrandawiad pledio** ydy ble:


- Mae rhywun o'r llys yn darllen y gwahanol gyhuddiadau.
- Mae'r diffynnydd yn dweud ydyn nhw'n euog neu'n ddieuog o bob cyhuddiad.



**Budd y cyhoedd** ydy beth sy'n dda i bawb yn y gymuned leol a'r wlad gyfan.




Mae **erlyn** yn golygu mynd â rhywun i'r llys.




**Treisio** yw pan yw rhywun yn cael rhyw gyda chi ac nad ydych chi wedi cytuno.




Mae **cred resymol** yn golygu credu bod rhywbeth yn wir oherwydd ei fod yn gwneud synnwyr ac yn deg.



Mae cael eu **cadw yn y ddalfa** yn golygu cael eu cadw dan glo gan sefydliad fel yr heddlu neu mewn carchar.




**Hawliau** yd'r pethau y dylai pob unigolyn eu cael yn ôl y gyfraith, fel yr hawl i allu deall a chael eich deall.




**Dedfryd** ydy'r gosb mae rhywun yn ei chael os bydd llys yn penderfynu eu bod yn euog o drosedd, a pha mor hir mae'n para**.**



Y **dedfrydu** ydy pan fydd yr ynadon neu'r barnwr yn penderfynu sut bydd rhywun yn cael eu cosbi, os ydyn nhw'n euog.



**Ymosodiad rhywiol** yw pan yw rhywun yn cyffwrdd â chi mewn ffordd rywiol nad ydych chi wedi cytuno iddi.




**Rhai sydd dan amheuaeth** ydy pobl mae'r heddlu'n meddwl allai fod wedi troseddu.



Ystyr **rhoi ar brawf** ydy bod llys yn gwrando ar y dystiolaeth i gyd mewn achos ac yn gwneud penderfyniad.




Y **dyfarniad** ydy pan fydd yr ynad neu'r rheithgor yn penderfynu a ydy rhywun yn euog neu'n ddieuog.



**Dioddefwr** ydy rhywun sydd yn cael niwed neu anaf oherwydd trosedd.



**Tystion** yw pobl sy'n dweud wrth y llys beth maen nhw'n wybod am y drosedd, fel:

- Beth welson nhw.
- Beth glywon nhw.
- Gwybodaeth arall am beth ddigwyddodd.



Mae'r **Uned Gofal Tystion** yn wasanaeth sydd yn cefnogi ac yn helpu pobl sy'n gorfod mynd i'r llys.

Cynhyrchwyd y llyfryn Hawdd ei Ddeall hwn gan easy-read-online.co.uk